

RHYBUDD o Benderfyniadau cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd yn Hybrid yn Siambr y Cyngor ddydd Mercher, 5 Gorffennaf 2023.

[Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig a bydd cofnodion llawn o'r cyfarfod gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w cymeradwyo.

Mae'r dogfennau ar gyfer y cyfarfod uchod ar wefan y Cyngor ynghyd â gweddarllodiad o'r gweithgareddau].

Yn bresennol: Cynghorydd Ken Taylor (Cadeirydd)
Cynghorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr Geraint Bebb, Jeff M Evans, Neville Evans,
T LI Hughes MBE, John Ifan Jones, R LI Jones, Dafydd Roberts,
Robin Williams.

Cynghorydd Nicola Roberts – Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod
y Cyhoedd a Newid Hinsawdd

Ymddiheuriadau Cynghorwyr Jackie Lewis ac Alwen P Watkin

Hefyd yn Bresennol: Aelodau Lleol: Cynghorwyr Margaret M Roberts (cais 12.5);
Ieuan Williams (cais 7.1).

Cynghorwyr Derek Owen, Llio A Owen, Dafydd R Thomas.

1.00 o'r gloch yf - 2.10 o'r gloch yf

RHIF YR EITEM A'R PWNC	2 DATGANIAD O DDIDDORDEB
PENDERFYNIAD	Dim

RHIF YR EITEM A'R PWNC	3 COFNODION
PENDERFYNIAD	Cafodd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 7 Mehefin, 2023 eu cadarnhau fel cofnod cywir yn amodol ar ddiwygiad i'r fersiwn Gymraeg yn 12.1 mai'r Cynghorydd Geraint Bebb roddodd y cynnig i gymeradwyo'r cais ac mai'r Cynghorydd Liz Wood wnaeth eilio.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	4 YMWELIADAU SAFLE
PENDERFYNIAD	Ni chynhaliwyd unrhyw ymweliadau safle.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	5 SIARAD CYHOEDDUS
PENDERFYNIAD	Cafwyd Siaradwyr Cyhoeddus mewn perthynas â chais 7.1.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EU GOHIRIO
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd dim ar gyfer y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	7 CEISIADAU YN CODI
PENDERFYNIAD	<p>7.1 HHP/2023/51 – Cais llawn ar gyfer dymchwel y modurdy presennol ynghyd â chodi anecs deulawr yn Lleoliad: Lancefield, Ffordd Cynlas, Benllech, Tyn Y Gongl</p> <p>Penderfynwyd GWRTHOD y cais yn groes l argymhelliad y Swyddog gan yr ystyriwyd:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod y cais yn or-ddatblygiad o'r safle; • goredrych dros yr eiddo cyfagos; • bod ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru l'r ymgynghoriad yn anghywir gan ei fod yn dangos ar eu mapiau risg llifogydd bos yr annedd wedi'i leoli o fewn ardal risg llifogydd. <p><i>(Yn unol â gofynion y Cyfansoddiad bydd y cais yn cael ei ohirio yn awtomatig i'r cyfarfod nesaf er mwyn rhoi amser i'r Swyddogion ymateb i'r rhesymau a roddwyd am wrthod y cais).</i></p>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	8 CEISIADAU ECONOMAIDD
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd dim ar gyfer y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	9 CEISIDADAU AM DY FFORDDIADWY
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd dim ar gyfer y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	10 CEISIADAU'N GWYRO
PENDERFYNIAD	<p>10.1 VAR/2023/18 – Cais o dan Adran 73 i ddiwygio amod (01) o caniatâd cynllunio rhif 43C54G/VAR (codi annedd) er mwyn caniatáu 5 mlynedd pellach i gychwyn y datblygiad yn Lleoliad: Gwynfryn Lodge, Rhoscolyn</p> <p>Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog yn amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad ysgrifenedig.</p>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	11 CYNIGION DATBLYGU GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd dim ar gyfer y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	12 GWEDDILL Y CEISIADAU
PENDERFYNIAD	<p>12.1 VAR/2023/33 – Cais o dan Adran 73 i ddiwygio amod (18) (Tirlunio) a (20) (Llwybrau troed ar gyfer cerddwyr) o caniatâd cynllunio rhif FPL/2021/361 (Cais llawn ar gyfer codi uned cyfnod sylfaen a uned gofal plant newydd, man chwarae allanol, maes parcio ynghyd a gwaith cysylltiedig) er mwyn caniatáu gwybodaeth mewn perthynas a amod (18) ar ôl gwaith gychwyn ar y safle a ail-eirio amod (20) er mwyn galluogi gwybodaeth cael ei gyflwyno cyn cychwyn ar y gwaith llwybr ar dir ger Lleoliad: Ysgol y Graig, Llangefni.</p> <p>Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog yn amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad ysgrifenedig.</p> <p>12.2 VAR/2023/8 – Cais o dan Adran 73 i ddiwygio amod (07)(Cynlluniau a</p>

	<p>Gymeradwywyd) o caniatâd cynllunio rhif FPL/2021/1 (newid defnydd adeilad rhestredig i fod yn 4 fflat llety cymdeithasol ynghyd ag addasiadau ac estyniadau) er mwyn diwygio y cynlluniau yn Lleoliad: Plas Alltran, 3 Ffordd Turkey Shore, Caergybi.</p> <p>Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog yn amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad ysgrifenedig.</p> <p>12.3 LBC/2023/9 – Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer ailosod ffenestri a drysau pren gyda ffenestri a drysau alwminiwm newydd, ynghyd â sgrin newydd sy'n gwrthsefyll tân yn Lleoliad: Ysgol Syr Thomas Jones, Pentrefelin, Amlwch.</p> <p>Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog yn amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad ysgrifenedig.</p> <p>12.4 FPL/2022/264 – Cais llawn ar gyfer newid defnydd tir amaethyddol i fewn i parc carafannau yn Lleoliad: Ty'n Cae, Rhostrehwfa, Llangefni.</p> <p>Penderfynwyd y dylid cynnal ymweliad safle corfforol ar gais yr Aelod Lleol a hynny am y rhesymau a nodwyd.</p> <p>12.5 HHP/2023/59 – Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yr annedd a'r modurdy yn Lleoliad: Pebbles, Trigfa, Moelfre</p> <p>Penderfynwyd y dylid cynnal ymweliad safle corfforol ar gais yr Aelod Lleol a hynny am y rhesymau a nodwyd.</p>
--	--

RHIF YR EITEM A'R PWNC	13 MATERION ERAILL
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd dim ar gyfer y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.